

Atodiad F – Polisi ar reoli risg ymddeoliad drwy salwch

1 Cyflwyniad

Pwrpas y polisi hwn yw nodi dull yr awdurdod gweinyddu o reoli'r risg sy'n codi oherwydd ymddeoliadau ar sail iechyd.

Dylid nodi nad yw'r datganiad hwn yn hollgynhwysfawr a gellir ystyried amgylchiadau unigol lle bo'n briodol

1.1 Nodau ac amcanion

Mae nodau ac amcanion yr awdurdod gweinyddu mewn perthynas â'r polisi hwn fel a ganlyn:

- Egluro'r dull a ddefnyddiwyd i reoli risg ymddeoliad drwy salwch.
- Nodi amgylchiadau lle gallai adolygiad o brofiad arwain at gyfraniadau ychwanegol.
- Amlinellu'r risgiau a manteision allweddol i'r trefniant hwn.

1.2 Cefndir

Gall ymrwymadau ychwanegol godi yn dilyn ymddeoliad aelodau oherwydd iechyd. Gall yr ymrwymadau ychwanegol hyn gynnwys taliad cynnar heb ei leihau o fuddion pensiwn a dyfarnu pensiwn ychwanegol. Mae lefel y buddion pensiwn a delir ar salwch yn dibynnu ar ddirifoldeb cyflwr yr aelod.

Mae'r Rheoliadau CPLIL yn ei gwneud yn ofynnol i'r ymrwymadau ychwanegol gael eu hariannu drwy daliadau gan gyflogwyr. Gall talu symiau mawr i gwrdd â straen pan fyddant yn codi arwain at daliadau annisgwyl a rhoi straen sylweddol ar gyllidebau cyflogwyr. Mae cronfeydd CPLIL yn gallu rhoi trefniadau ar waith sy'n lliniaru'r risg o orfod talu swm mawr o arian oherwydd taliad straen ymddeoliad ar sail iechyd.

Er mwyn lliniaru'r risg hon i gyflogwyr llai, ac i ddangos tystiolaeth o lywodraethu a rheoli risg da, mae'r awdurdod gweinyddu wedi trefnu polisi yswiriant allanol i gwmpasu straen ymddeoliad cynnar ar sail iechyd i gyflogwyr llai yn y Gronfa. Mae pob un o gyfraniadau'r cyflogwr hyn i'r Gronfa yn cynnwys ei gyfran o bremiwm yswiriant y flwyddyn honno. Pan fydd aelod gweithredol yn ymddeol ar ymddeoliad cynnar ar sail iechyd, bydd swm yr hawliad a dderbyniwyd gan yr yswiriwr yn cael ei gredydu i gyfran ased y cyflogwr priodol yn y Gronfa.

Ar gyfer yr holl gyflogwyr eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi yswiriant allanol, byddai unrhyw straen ariannu sy'n fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu yn cael ei fodloni trwy gynyddu cyfraniadau parhaus.

1.3 Canllawiau a fframwaith rheoleiddio

Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 (fel y'u diwygiwyd) yn nodi'r buddion sy'n daladwy i aelodau a'r ffordd y dylid ariannu buddion ychwanegol (fel y rhai sy'n codi ar ymddeoliad cynnar oherwydd salwch). Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rheol 35 – caniatáu ymddeoliad cynnar o bensiwn ar sail iechyd
- Rheol 39 – yn nodi'r cyfrifiad o'r pensiwn sy'n daladwy yn achos ymddeoliad ar sail iechyd
- Rheol 68 – yn nodi'r cyfraniadau ychwanegol sy'n daladwy gan y cyflogwr i gwrdd â'r straen atebolrwydd a achosir gan aelod yn ymddeol oherwydd iechyd

2 Datganiad o egwyddorion

Mae'r datganiad egwyddorion hwn yn cwmpasu'r trefniant yswiriant allanol sydd ar waith i reoli'r risgiau a grëir gan ymddeoliadau ar sail iechyd i gyflogwyr llai, a'r risgiau cyfatebol i gyflogwyr mwy nad ydynt yn defnyddio'r trefniant yswiriant salwch. Yn gyffredinol:

- Ni fydd yn ofynnol i gyflogwyr dalu cyfandaliadau i gwrdd â straen ymddeoliad ar sail iechyd (yn ôl yr arfer).
- Bydd straeniau ymddeoliad oherwydd iechyd Haen 1 a Haen 2 yn dod o dan y trefniant hwn
- Ar gyfer cyflogwyr llai yn y Gronfa sy'n cael eu hyswiro gan yswiriant allanol:
 - Ni all cyflogwyr cymwys optio allan o'r trefniant hwn
 - Mae pob un o gyfraniadau'r cyflogwr hyn i'r Gronfa yn cynnwys ei gyfran o bremiwm yswiriant y flwyddyn honno
- Ar gyfer holl gyflogwyr eraill y Gronfa:
 - Bydd cyfraddau cyfrannu rheolaidd yn cynnwys cost ddisgwyliedig ymddeoliadau oherwydd salwch tybiedig
 - Defnyddir system Traciwr Asedau Cyflogwr Hymans Robertson (HEAT) i olrhain profiad iechyd gwirioneddol
 - Byddai unrhyw straen ariannu a oedd yn fwy na'r lwfans a wneir yn y sail ariannu fel arfer yn cael ei dalu drwy gynydd mewn cyfraniadau parhaus yn y prisiad tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r Gronfa'n cadw'r hawl i ofyn am gyfraniadau ychwanegol ar unwaith os bydd straen sylweddol o iechyd yn ystod y cyfnod rhwng prisiadau.

3 Polisi

3.1 Pwrpas

Pwrpas y polisi rheoli risg iechyd hwn yw diogelu'r Gronfa rhag profiad ymddeoliad niweidiol gan gyflogwyr unigol.

3.2 Cymhwysedd

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob cyflogwr yn y Gronfa. Mae'r 'cyflogwyr llai' sy'n dod o dan yswiriant allanol yn cynnwys pob cyngor tref a chorff cymunedol a ganiateir (gyda llai na 75 o aelodau gweithredol) ac yn eithrio cyrff ar yr atodlen neu ddynodedig.

3.3 Gweithredu

Mae'r polisi yn gweithio fel a ganlyn:

- Pennir cyfrannau asedau ar gyfer pob cyflogwr bob mis gan Hymans Robertson, gan ddefnyddio'r system HEAT ac yn seiliedig ar y llif arian misol a'r wybodaeth asedau a ddarperir gan y gronfa.

Fel rhan o'r ddarpariaeth ddata hon, mae'r gronfa'n pennu'r costau straen sy'n codi oherwydd ymddeoliadau ar sail iechyd a dyrennir y straen hwn i bob cyflogwr gweithredol yn gymesur â'u cyfran asedau ar ddechrau'r mis hwnnw.

- Pennir cyfraddau cyfraniadau gan Actiwari'r Gronfa bob tair blynedd fel rhan o'r prisiad tair blynedd.

Mae cyfraddau cyfraniadau sylfaenol yn cynnwys lwfans ar gyfer cost ddisgwyliedig ymddeoliadau oherwydd salwch tybiedig (a fynegir fel canran o'r gyflogres).

Mae hyn yn darparu cyllid parhaus ar gyfer y lefel dybiedig o straen ymddeoliad ar sail iechyd.

3.3.1 Cyflogwyr llai

- Mae cyflogwyr llai yn y Gronfa wedi'u diogelu gan y trefniant yswiriant salwch.
 - Pan fydd aelod gweithredol yn ymddeol ar ymddeoliad cynnar ar sail iechyd haen un neu haen dau, bydd swm hawliad sy'n hafal i gost straen a gyfrifwyd ar gyfer yr ymddeoliad yn cael ei dderbyn gan yr yswiriwr (gan dybio bod hawliad dilys) a'i gredydu i gyfran ased y cyflogwr priodol yn y Gronfa
 - Nid oes sicrwydd y bydd yr yswiriwr yn talu'r hawliad, er enghraifft os nad yw'n credu bod y gofynion ar gyfer ymddeoliad iechyd haen un neu haen dau wedi'u bodloni.

3.3.2 Cyflogwyr eraill

- Cyflogwyr eraill yn y Gronfa nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniant yswiriant salwch
 - Lle mae lefel wirioneddol straen ymddeoliad oherwydd iechyd yn uwch na'r lefel dybiedig, bydd hyn yn arwain at ddiffyg yn y prisiad tair blynedd nesaf ar gyfer y cyflogwyr hynny nad ydynt wedi'u cynnwys yn y trefniant yswiriant iechyd.

Ni fydd angen unrhyw gyfraniadau ychwanegol ar unwaith gan gyflogwyr i gwrdd â'r diffyg hwn, ond gallai hyn gynyddu'r gofyniad cyfraniadau yn dilyn y prisiad tair blynedd nesaf.
 - Yn yr un modd, lle mae lefel wirioneddol straen ymddeoliad oherwydd iechyd yn is na'r lefel dybiedig, bydd hyn yn arwain at warged yn y prisiad tair blynedd nesaf.

Ni fydd unrhyw ad-daliad yn cael ei dalu i gyflogwyr o ganlyniad i hyn, ond gallai'r gwarged hwn arwain at bwysau am i lawr ar gyfraniadau yn dilyn y prisiad tair blynedd nesaf.

3.4 Adolygu a cyfraniadau ychwanegol

Bydd yr awdurdod gweinyddol yn adolygu lefel y profiad iechyd ar draws yr holl gyflogwyr ym mhob prisiad tair blynedd.

Os oes gan gyflogwr nifer anarferol o uchel o achosion o ymddeoliad oherwydd salwch dros y cyfnod rhwng prisiadau blaenorol, bydd yr awdurdod gweinyddol yn ymgysylltu â'r cyflogwr i ddeall y rhesymau dros hyn. Os bydd pryderon ynghylch y meini prawf cymhwysedd a ddefnyddir gan y cyflogwr wrth ganiatáu ymddeoliadau ar sail iechyd, gallai hyn arwain at yr angen i'r cyflogwr dalu cyfraniadau ychwanegol i'r Gronfa.

3.5 Costau

Bydd costau gweithredu'r polisi hwn yn cael eu talu gan y Gronfa fel rhan o'i threuliau gweinyddol

4 Polisiau Cysylltiedig

Mae dull y Gronfa o bennu cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr rheolaidd wedi'i nodi yn y Datganiad Strategaeth Cyllido, yn benodol "Adran 2 – Sut mae'r Gronfa'n cyfrifo cyfraniadau cyflogwyr?"